sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Adolygu'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC

## Cais am Dystiolaeth

**CAIS AM DYSTIOLAETH:**

Dyddiad Cyhoeddi: 9 Hydref 2020
Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 4 Rhagfyr 2020

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 2

# 1. Trosolwg

Mae'r BBC yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol i gynhyrchu elw, y gellir ei ail-fuddsoddi yn rhaglenni a gwasanaethau'r BBC ac ategu incwm o ffi'r drwydded. Bydd angen i'r gweithgareddau hyn addasu i'r amgylchedd sy'n newid ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi. Ein rôl ni fel rheoleiddiwr yw sicrhau nad yw'r berthynas rhwng y rhan o'r BBC sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded (y Gwasanaeth Cyhoeddus) a'r gweithgareddau masnachol yn effeithio ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym yn cefnogi'r angen i'r BBC arloesi, tyfu a newid cyn belled â bod hyn yn cael ei wneud yn deg.

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau masnachol y BBC yn cael eu cyflawni drwy'r is-gwmni masnachol, BBC Studios. Mae BBC Studios yn cynhyrchu ac yn dosbarthu cynnwys i ddefnyddwyr ei wylio yn y DU ac o gwmpas y byd. Mae'n berchen ar ac yn gweithredu sianeli (UKTV), ac mae ganddo fenter ryngwladol ar y cyd sy'n wasanaeth fideo ar alw drwy danysgrifio (BritBox yn UDA a Chanada), ac mae'n gwerthu fformatau rhaglenni yn rhyngwladol a chynhyrchion defnyddwyr fel DVDs a nwyddau.

Mae'r ddogfen hon yn lansio ein hadolygiad o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a'r Gwasanaeth Cyhoeddus.

### Beth rydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch - yn gryno

O ystyried datblygiadau yn sefyllfa'r cyfryngau ac yn BBC Studios dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n bwysig ein bod ni'n gwella ein dealltwriaeth o sut mae BBC Studios wedi rhoi ein rheolau ar waith a'n bod ni'n bod yn fwy tryloyw ynghylch hyn i randdeiliaid.

Yn yr adolygiad hwn, byddwn yn ystyried pryderon ynghylch y berthynas rhwng y Gwasanaeth Cyhoeddus a BBC Studios. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu a yw ein gwaith rheoleiddio yn effeithiol o hyd ac a oes angen gwneud rhagor o waith, gan gynnwys diwygio ein rheolau. Rydym yn gwahodd sylwadau gan randdeiliaid ar y meysydd allweddol canlynol:

- Gwahanu'n weithredol rhwng BBC Studios a'r Gwasanaeth Cyhoeddus;
- Cyflenwi a phrisio nwyddau a gwasanaethau rhwng BBC Studios a'r Gwasanaeth Cyhoeddus;
- Cyfradd elw masnachol a enillir gan BBC Studios.

Rydym hefyd yn gwahodd safbwyntiau ar unrhyw feysydd eraill sy'n peri pryder i randdeiliaid am BBC Studios yn cael mantais annheg neu'n ystumio'r farchnad o ganlyniad i'w berthynas â'r Gwasanaeth Cyhoeddus.

1.1 Rydym yn croesawu tystiolaeth gan randdeiliaid ar y materion sy'n codi yn y ddogfen hon, gan gynnwys safbwyntiau ynghylch a yw adroddiad Mediatique (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon) yn cynnig sail resymol i ni ystyried cyd-destun y farchnad ar gyfer yr adolygiad hwn. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ddogfen hon yw 4 Rhagfyr 2020. Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau gan randdeiliaid ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canfyddiadau o'r adolygiad hwn yn ystod gwanwyn 2021.